Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol

# Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol

Adroddiad Blynyddol2018-19



Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol

# Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol Adroddiad Blynyddol 2018-19

Cyflwynwyd i Dŷ'r Cyffredin o dan Adran 7 (4) o'r Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012.

Gorchmynnwyd ei argraffu gan Dŷ'r Cyffredin ar 4 Gorffennaf 2019

HC 2290

OGL

© Hawlfraint y Goron 2019

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau fersiwn 3.0 y Drwydded Llywodraeth Agored, ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle'r ydym wedi nodi deunydd gyda hawlfraint trydydd parti, bydd angen ichi ofyn am ganiatâd gan y rhai sy'n dal yr hawlfraint honno.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents

Dylid anfon unrhyw ymholiad ynghylch y cyhoeddiad hwn atom ni yn Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol, 102 Petty France, Llundain, SW1H 9AJ

ISBN 978-1-5286-1441-2

CCS0619468214 07/19

Argraffwyd ar bapur yn cynnwys o leiaf 75% o ffibr wedi'i ailgylchu

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | 1 |
| Cyflwyniad | 2 |
| Rôl y Cyfarwyddwr | 3 |
| Proses a Strwythur Gwneud Penderfyniadau | 6 |
| Atebolrwydd | 10 |
| Ystadegau | 11 |
| Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | 12 |
| Casgliad | 12 |

# Rhagair

Mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol ar gyfer 2014-15.

Mae fy rôl fel Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol yn un a grëwyd gan y Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012. Mae'n ymwneud â'r penderfyniadau a wneir ar geisiadau unigol am gymorth cyfreithiol. Y Cyfarwyddwr sy'n llwyr gyfrifol am achosion unigol ac mae hyn yn sicrhau bod y penderfyniadau yn y maes hwn yn annibynnol ar y Llywodraeth.

Rwyf wedi cyflawni'r rôl hon ers 1 Ebrill 2016, pan ymgymerais â rôl Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol ynghyd â rôl Prif Weithredwr yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (ACC).


Mae'r adroddiad yn crynhoi'r gwaith a wneir ar ran y Cyfarwyddwr ac mae'n cynnwys penderfyniadau a wnaethpwyd a phrosesau a ddilynwyd yn cynnwys y mecanweithiau sy'n bodoli ar gyfer galw'r  Cyfarwyddwr i gyfrif a chraffu ar waith yr  Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol.

Mae'r adroddiad yn trafod newidiadau a diwygiadau rheoliadol i ganllaw'r Arglwydd Ganghellor yn ystod y flwyddyn. Gyrrwyd nifer o'r rhain gan gyflwyniad y cytundebau sifil newydd.  Roedd yna hefyd newidiadau i drefniadau am waith brys a gwblhawyd cyn y gellid gwneud penderfyniad penderfynu ar geisiadau cymorth cyfreithiol penodol.

Mae'r materion eraill yn yr adroddiad yn cynnwys ffioedd trosedd ar gyfer eiriolwyr ac ehangu cwmpas cymorth cyfreithiol mewn adrannau penodol o gyfraith carchar. Hefyd, canllaw diwygiedig ar gyfer cefnogi teuluoedd mewn profedigaeth yn well yn y broses cyllido achosion eithriadol  ar gyfer cynrychiolaeth mewn cwest

Byddwn hefyd yn hoffi croesawu Calum Mercer, Deep Sagar a'r Athro Suzanne Rab a ymunodd â Bwrdd yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol yn ddiweddar. Mae gan y bwrdd rôl bwysig wrth helpu'r Cyfarwyddwr gynnal annibyniaeth y broses gwneud penderfyniadau am gymorth cyfreithiol.

Yn olaf, dymunaf ddiolch i Andrew Lockley ac Eric Gregory gamodd i lawr fel aelodau'r Bwrdd yn ystod y flwyddyn adrodd hon ac i John Grosvenor a gamodd i lawr ar 30 Ebrill 2019, am eu proffesiynoldeb, eu gwasanaeth a'u cyfraniad yn ystod eu cyfnod.



Shaun McNally
Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol

# Cyflwyniad

1. Penodir y Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol (y Cyfarwyddwr) gan yr Arglwydd Ganghellor o dan Adran 4 o'r Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012 (y Ddeddf). Rôl y Cyfarwyddwr yw gwneud penderfyniadau ar ddarparu cymorth cyfreithiol mewn achosion unigol.

2. Mae'r Cyfarwyddwr yn gweithredu'n annibynnol ar yr Arglwydd Ganghellor ac mae prosesau a strwythurau mewnol clir wedi'u sefydlu yn yr Asiantaeth i sicrhau bod yr annibyniaeth hon yn parhau. Mae'r rhain wedi'u disgrifio'n fwy manwl yn yr adroddiad hwn.

3. Yn ymarferol, mae nifer o'r swyddogaethau a gyflawnir gan y Cyfarwyddwr yn cael eu dirprwyo i'r Asiantaeth. Mae'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol, a ffurfiwyd ar 1 Ebrill 2013, yn asiantaeth weithredol i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder. Roedd hyn yn dilyn diddymu'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol, Corff Cyhoeddus Anadrannol a noddwyd gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder, a oedd wedi gwneud penderfyniadau cyn hynny ar ddarparu cymorth cyfreithiol mewn achosion unigol.

4. Cefnogir y Cyfarwyddwr gan Fwrdd yr Asiantaeth i sicrhau bod arferion cadarn ar waith i gynnal annibyniaeth y broses benderfynu ar gyfer darparu cymorth cyfreithiol. Mae tri aelod anweithredol newydd wedi eu penodi i'r Bwrdd sef Calum Mercer (cyllid), Deep Sagar (masnachol) a'r Athro Suzanne Rab (cyfreithiol).

5. Mae rolau Cyfarwyddwr a Phrif Weithredwr yr Asiantaeth yn rhai y gellir eu dal gan yr un person. Fodd bynnag, mae trefniadau gwahanol yng nghylch atebolrwydd ac adrodd ar gyfer y ddwy rôl. Ers 1 Ebrill 2016 cyflawnir y ddwy rôl gan Shaun McNally.

6. Mae'r adroddiad hwn yn egluro sut y mae'r Cyfarwyddwr wedi cyflawni'r swyddogaethau sydd wedi'u hymddiried iddo'n benodol o dan y Ddeddf (LASPO) dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Mae'r Asiantaeth yn cyhoeddi ei Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar wahân ac mae'r cyhoeddiad hwnnw'n ymdrin â chylch gwaith ehangach y sefydliad.

# Rôl y Cyfarwyddwr

7. Y Cyfarwyddwr sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau ar geisiadau unigol am gymorth cyfreithiol sifil a throseddol fel y nodir yn Rhan 1 y Ddeddf (LASPO.[1]

8. O dan y Ddeddf (LASPO), gall yr Arglwydd Ganghellor ddyroddi cyfarwyddiadau a chanllawiau i'r Cyfarwyddwr ynghylch y ffordd o gyflawni ei swyddogaethau, ond rhaid iddo beidio â dyroddi canllawiau o'r fath mewn perthynas â cheisiadau unigol am gymorth cyfreithiol. Rhaid i'r Cyfarwyddwr gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau ac ystyried unrhyw ganllawiau a roddir yn ogystal â gweithredu'n unol â'r Ddeddf a'r fframwaith rheoleiddio cysylltiedig.

9. Cyhoeddodd yr Arglwydd Ganghellor un ddogfen ganllaw newydd yn 2018-2019. Ar 26 Gorffennaf 2018 cyflwynwyd canllaw a oedd yn caniatáu ceisiadau Cyllido Achosion Eithriadol gan neu ar ran blant ymfudwyr heb dystiolaeth fanwl o'r materion parthed bod yn agored i niwed a'r gallu i gymryd rhan mewn achosion heb gymorth cyfreithiol (rhagdybir hyn). Bwriedir i hyn fod yn fesur dros dro tra bod deddfwriaeth a chanllawiau yn cael eu drafftio er mwyn dod â materion mewnfudo plant mudwyr a wahanwyd i gwmpas y Ddeddf (LASPO).

10. 10. Mae'r Arglwydd Ganghellor hefyd wedi diwygio dogfennau canllaw a oedd yn bodoli eisoes er mwyn cynnwys cyflwyniad y Cytundeb Sifil Safonol 2018 ac yn dilyn ymrwymiad y Bwrdd Gweinidogol ar Farwolaethau yn y Ddalfa i adolygu canllawiau mewn perthynas â bod cynrychiolaeth drwy gymorth cyfreithiol ar gael mewn cwestau penodol. Felly cafodd "Canllaw'r Arglwydd Ganghellor ar Gyllido Eithriadol (Cwestau)" ei ddiweddaru ym Mehefin 2018 i roi cefnogaeth well i deuluoedd sy'n mynd drwy'r broses o wneud cais am gymorth cyfreithiol. Gwnaeth yn glir y byddai cymorth cyfreithiol yn debygol o gael ei roi ar gyfer cynrychioli'r rhai mewn profedigaeth mewn cwest yn dilyn marwolaeth annaturiol neu hunanladdiad person wedi ei gadw yn y ddalfa gan yr heddlu, yn y carchar neu mewn sefydliad iechyd meddwl. Ychwanegodd hefyd y dylid rhoi ystyriaeth benodol i amgylchiadau'r rhai mewn profedigaeth, er enghraifft y trallod a'r pryder o ganlyniad i'r farwolaeth, pan wneir penderfyniad i gymhwyso'r prawf modd ariannol. Mae'r canllaw bellach yn nodi mai dim ond modd ariannol y ceiswyr unigol gaiff ei brofi ac nid modd aelodau'r teulu, gan helpu i leddfu baich y broses ymgeisio.

11. 11. Hefyd fe ddiweddarodd yr Arglwydd Ganghellor ganllawiau mewn perthynas â phenderfyniadau parthed adnoddau ariannol unigolion yn unol â Rhan 1 y Ddeddf (LASPO) ar gyfer gwaith a reolir a chyfryngu teuluol. Roedd y "Canllaw ar gyfer Penderfynu ar Gymhwystra Ariannol ar gyfer gwaith a reolir a chyfryngu teuluol Ebrill 2018 (diweddarwyd Medi 2018)" yn sicrhau bod y canllaw'n cydymffurfio â'r

1 http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2012/10/part/1/enacted

newidiadau a ddaeth i rym pan weithredwyd y Cytundeb Sifil Safonol 2018

12. Gwnaethpwydynewidiadaucanlynolhefyd i'r fframwaith rheoliadol a deddfwriaethol yn 2018-2019:

i. Ti. Gwnaethpwyd diwygiadau i Reoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Gweithdrefn) 2012 gan Reoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Gweithdrefnau) (Diwygiad) 2019. Mae'r diwygiadau'n galluogi penderfyniadynghylchaywunigolyn yn gymwys ar gyfer rhai gwasanaethau cyfreithiol i fod yn weithredol o ddyddiad cyn y penderfyniad mewn amgylchiadau penodol. Mae'r pŵer hwn yn ddarostyngedig i'r amodau canlynol: (a) y gwneir y cais am gymorth cyfreithiol cyn gynted ag y mae'n ymarferol bosibl; (b) ei bod er budd cyfiawnder fod y gwaith yn cael ei wneud cyn i'r penderfyniad neu'r diwygiad perthnasol gael ei wneud ac ni ellir gwneud y gwaith fel Gwaith a Reolir; ac

ii. (c) mewn perthynas â phenderfyniadau mewn adolygiadau neu apeliadau, gan ystyried yr holl amgylchiadau, yn cynnwys yr wybodaeth oedd ar gael i'r darparwr pan wnaethpwyd y cais neu'r cais am adolygiad, bod y Cyfarwyddwr yn fodlon ei bod yn briodol trin y penderfyniad fel un a oedd yn weithredol o ddyddiad cynharach. Daeth y rheoliadau hyn i rym ar 20 Chwefror 2019 ac maent yn golygu bod cymorth cyfreithiol ar gael i wneud gwaith brys a gwblhawyd cyn i'r Asiantaeth allu gwneud penderfyniad. Mae paragraff 29 isod yn amlinellu cefndir y newid hwn.

iii. Diwygiodd y Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Gweithdrefnau, Cydnabyddiaeth Ariannol a Thaliad Statudol) (Diwygiad) 2018 2018 dri offeryn statudol mewn perthynas darparugwasanaethaucyfreithiolsifil, wrth i'r Cytundeb Sifil Safonol 2018 a'r Cytundeb Cyngor Cyfreithiol Sifil 2018 (CLA) ar 1 Medi 2018. Diwygiodd Rheoliad 2 y Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Gweithdrefnau) 2012 er mwyn cyfeirio at y Cytundeb Sifil Safonol 2018 a'r Cytundeb CLA 2018 mewn perthynas â darpariaethau sy'n llywodraethu'rgweithdrefnauargyfer gwneud ceisiadau am Waith Gateway, Gwaith a Reolir, Gwaith Trwyddedig a Chyllido Achosion Eithriadol. Hefyd, fe wnaeth i ffwrdd â chynrychiolaeth gyfreithiol ar gyfer achosion yn Siambr Mewnfudo a Lloches Wleidyddol yr Uwch Dribiwnlys mewn perthynas ag apêl neu adolygiad gan Siambr Mewnfudo a Lloches Wleidyddol yr Uwch Dribiwnlys Haen Gyntaf y Tribiwnlys ar y diffiniad o Waith a Reolir, gan arwain at ei

ail-gategoreiddio fel Gwaith Trwyddedig. Fe ddiwygiodd Rheoliad 3 y Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Cydnabyddiaeth Ariannol) 2013 ermwyn galluogi talu cydnabyddiaeth ariannol i bersonau sy'n darparu gwasanaethau cyfreithiol sifil o dan y Cytundeb Sifil Safonol 2018 a'r Cytundeb CLA 2018. Fe wnaeth Rheoliad 4 fân addasiadau i'r Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Taliad Statudol) 2013 ac i'r diffiniad o "costau cymorth cyfreithiol yn unig" yn benodol. Yn benodol, er mwyn sicrhau bod costau cymorth cyfreithiol yn unig, fel y'i disgrifir o dan y Cytundeb Sifil Safonol 2018, yn cael eu heithrio o'r taliad ar gostau sy'n daladwy i barti sy'n derbyn cymorth cyfreithiol ac nad yw yn rhan o gostau a adferir gan barti arall yn yr achos.

iv. Er cyhoeddi Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Troseddol (Cydnabyddiaeth Ariannol) (Diwygiad) 2018, yn Chwefror 2018, ni ddaethant i rym tan 1 Ebrill 2018. Fe wnaethant ddiwygiadau i Reoliadau Cymorth Cyfreithiol Troseddol (Cydnabyddiaeth Ariannol) 2013. Maent wedi diwygio ffioedd cymorth cyfreithiol sy'n daladwy i eiriolwyr mewn achosion cyfreithiol troseddol o dan gynllun ffi graddoledig eiriolwyr (AGFS), fel nodir yn Atodlen 1 Rheoliadau 2013. Mae'r rheoliadau hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer pennu ffioedd eiriolwyr ar sail 'strwythur bandio' newydd ar gyfer troseddau..

v. Diwygiodd Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Troseddol (Diwygiad) 2018 y Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Troseddol (Cyffredinol) 2013 a'r Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Troseddol (Adnoddau Cyllidol) 2013. Mae'r diwygiadau a wnaed gan y rheoliadau hyn yn ehangu ar gwmpas cymorth cyfreithiol troseddol i gynnwys cyngor a chymorth o ran cynnal adolygiad o ddosbarthiad unigolyn fel Preswylydd Statws Cyfyngedig Restricted Status Inmate (RSI) neu Garcharor Statws Cyfyngedig Restricted Status Prisoner (RSP). Mae RSI yn berson y mae'n ofynnol ei gadw mewn sefydliad troseddwyr ifanc ac a fyddai'n peri bygythiad difrifol i'r cyhoedd pe bai'n dianc. Mae RSP yn berson a fyddai'n peri bygythiad difrifol i'r cyhoedd pe bai'n dianc. Maent hefyd yn ehangu ar gwmpas cymorth cyfreithiol troseddol i gynnwys cyngor a chymorth o ran cynnal adolygiad o ddosbarthiad unigolyn fel Preswylydd Categori A (sy'n golygu preswylydd mewn sefydliad troseddwyr ifanc a fyddai'n berygl sylweddol i'r cyhoedd, yr heddlu neu i ddiogelwch cenedlaethol pe bai'n dianc.

# Proses a Strwythur gwneud Penderfyniadau

vi. Fe wnaeth Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Troseddol (Cydnabyddiaeth Ariannol) (Diwygiad) (Rh.2) 2018 ddiwygiadau i'r Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Troseddol (Cydnabyddiaeth Ariannol) 2013. Mae'r rheoliadau hyn, ddaeth i rym ar 31 Rhagfyr 2018 yn diwygio ymhellach y ffioedd cymorth cyfreithiol sy'n daladwy i eiriolwyr mewn achosion troseddol dan yr AGFS, fel y nodir yn Atodlen 1 o Reoliadau 2013.

13. Er nad oes gan yr Arglwydd Ganghellor rôl mewn perthynas â phenderfyniadau cyllido unigol, caiff cyfarfod blynyddol ei drefnu i drafod gweithredu swyddogaethau'r swydd. Mae hyn yn cynnwys trafod unrhyw themâu a amlygwyd mewn perthynas â rôl y Cyfarwyddwr, y cynllun cymorth cyfreithiol a gwersi a ddysgwyd. Eleni cynhaliwyd y cyfarfod ar 13 Mai 2019. Trafodwyd y materion y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn

14. Caiff penderfyniadau ar achosion a swyddogaethau'r Cyfarwyddwr eu dirprwyo i'r Asiantaeth (ACC). Yn benodol, gwneir y penderfyniadau hyn gan Rheolaeth Achos, tîm o tua 891 aelod o staff. Rhennir y tîm hwn i ddau grŵp gaiff eu harwain gan ddau Ddirprwy Gyfarwyddwr:

- Rheolaeth Achosion Sifil a Throseddol Exceptional and Complex Cases Team (ECCT).
- Tîm Achosion Eithriadol a Chymhleth (ECCT). Mae'r grŵp hwn yn cyfuno'r hen Dîm Sifil Cost Uchel, Tîm ECF a'r Tîm Mewnfudo a Lloches Wleidyddol Genedlaethol.

15. Mae Rheolaeth Achosion Sifil yn cynnwys Teilyngdod Cyfreithiol, Achosion Teulu Cost Uchel, Modd, Cyllid Sifil, Rheoli Cofnodion a thimau Cefnogi Busnes Canolog yn ogystal â Thîm Gwasanaeth Cwsmer. Mae gwaith yn mynd rhagddo'n barhaus ar adolygu prosesau a gwella a symleiddio lle bo'n bosib. Mae cysylltiadau agos â'r Tîm Effeithlonrwydd Proses a'r Grŵp Ymgynghorol Cytundebau Sifil (sy'n cynnwys rhanddeiliaid o gyrff cynrychiadol o'r tu allan i'r ACC) yn sicrhau cydweithio ar feysydd allweddol i ganolbwyntio arnynt. Mae hyn wedi cynnwys gwelliannau i filio sifil ac asesu modd er mwyn gwella prosesu o'r dechrau i'r diwedd. Mae canolbwyntio ar leihau 'methiant galw' a sgiliau System Rheoli Cleientiaid a Chost y darparwr wedi parhau drwy'r flwyddyn.

16. Mae Rheolaeth Achosion Troseddol yn cynnwys yr Uned Achosion Troseddol sy'n ymdrin ag achosion troseddol cost uchel, paratoi arbenigol, asesu ceisiadau'r Ddeddf Elw Troseddau a cheisiadau o'r Cronfeydd Canolog. Mae'r Uned Achosion Troseddol wedi parhau â'i raglen o ddefnyddio ffurflenni cais digidol yn hytrach na cheisiadau papur ceisiadau papur, ac o ganlyniad caiff darparwyr eu talu'n gyflymach ac yn fwy effeithlon. Yn ychwanegol, yn dilyn yr Adolygiad Barnwrol yn erbyn yr Arglwydd Ganghellor yn ystod haf 2018 [R (On the Application of Ames) v The Lord Chancellor [2018] EWHC 2250 (Admin)], cyhoeddwyd canllawiau ar sut y cyfrifir ffioedd ar gyfer eiriolwyr mewn achosion cost uchel iawn.

17. Mae'r ECCT yn ymdrin â'r achosion sifil mwy costus a chymhleth a ariannir gan yr ACC yn ogystal ag achosion mewnfudo, ac eithrio'r rhai drwy waith a reolir. Mae llawer o'r ceisiadau gaiff eu derbyn a'u cyfeirio at yr ECCT gan y Cyfarwyddwr yn rhai â phroffil uchel

18. Mae'r ECF yn dod o dan yr ECCT. Mae cynllun yr ECF yn ymwneud â'r holl geisiadau sydd tu allan i gwmpas ariannu cymorth cyfreithiol sifil arferol o dan y Ddeddf (LASPO). Fel nodir yn adran 10 o Ddeddf LASPO, mae ECF yn berthnasol pan fyddai methiant i ddarparu cymorth cyfreithiol yn dor-rheol, neu lle byddai risg arwyddocaol o dorri'r hawliau canlynol:

a) hawliau'r unigolyn dan y Confensiwn [o fewn ystyr y Ddeddf Hawliau Dynol 1998 (HRA)]; neu

b) unrhyw hawliau gan yr unigolyn i ddarpariaeth gwasanaeth cyfreithiol sy'n berthnasol i hawliau'r UE, y gellir eu gorfodi

19. Rhaid ystyried ceisiadau ECF ar sail unigol, yng ngoleuni'r ffeithiau a'r gofynion ariannu statudol, gan roi ystyriaeth i'r canllaw ECF a chyfraith achosion. Gall ceiswyr wneud cais yn uniongyrchol, ac fe wneir hynny weithiau.

20. Er mwyn sicrhau bod deddfwriaeth a chanllawiau cymorth cyfreithiol a gyhoeddir gan yr Arglwydd Ganghellor yn cael eu cymhwyso mewn modd cyson, parhawyd i ddarparu cyngor a hyfforddiant i holl weithwyr achos yr ACC, gan eu teilwra'n unol â rôl benodol pob tîm.

21. Darperir cyngor cyfreithiol i'r Cyfarwyddwr gan y Tîm Cyfreithiol Canolog sy'n cynnwys cyfreithwyr a gyflogir gan Adran Gyfreithiol y Llywodraeth, ond sydd wedi eu neilltuo a'u cyd-leoli yn yr ACC. Mae'r tîm yn gweithio i'r ACC yn unig wrth weithredu swyddogaethau'r Cyfarwyddwr neu swyddogaethau cymorth cyfreithiol gweithredol yr Arglwydd Ganghellor.

22. Caiff penderfyniadau ar geisiadau unigol eu dirprwyo i weithwyr achos gyda'r cyfle i uwchgyfeirio lle bo angen. Mae hyn yn

cynnwys mecanwaith cyfeirio at y Tîm Cyfreithiol Canolog ar gyfer materion proffil uchel sy'n cynnwys achosion sy'n mynd i'r Llys Apêl neu'r Goruchaf Lys. Mae'r broses hon o gyfeirio yn rhoi'r sicrwydd angenrheidiol i'r Cyfarwyddwr bod unrhyw benderfyniadau a wneir yn gyfreithlon.

## Apeliadau ac Adolygiadau

23. Mae hawl i gynnal adolygiad mewnol o bob penderfyniad a wneir gan y Cyfarwyddwr ble gwneir cais am hynny. Ymhellach, oni bai fod y cais am ECF neu fod y Cyfarwyddwr yn penderfynu nad yw'r achos o fewn cwmpas y Ddeddf LASPO mae hawl apêl bellach am Ddyfarnwr Ariannu Annibynnol (IFA), cyfreithiwr neu fargyfreithiwr o gwmni preifat . Mae Dyfarnwyr (IFAs) yn aelodau o'r Panel Adolygu Ariannu a Chostau Apeliadau (FCARP). Nid yw aelodau'r panel yn gweithio i'r ACC ac maent yn gweithredu'n annibynnol. Cynhwysir ystadegau ar nifer a deilliannau apeliadau ym mhob argraffiad blynyddol o'r bwletin Ystadegau Cymorth Cyfreithiol. Cyhoeddwyd y ffigyrau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben Mawrth 2019 ar 27 Mehefin 2019.

24. I'r Cyfarwyddwr, mae rhai penderfyniadau gan yr IFA yn rhwymol. Sef: unrhyw asesiad o ragolygon llwyddiant achos, a yw mater o bwys mawr i'r cleient, cymhareb cost a budd yr achos a rhyddhau neu ddirymu ar sail ymddygiad Caiff materion eraill eu cyfeirio'n ôl i'r Cyfarwyddwr i'w hailystyried. Mae rhai o aelodau'r panel yn eu rolau fel Aseswyr Cost Annibynnol (ICAs) yn ystyried apeliadau yn erbyn asesiadau costau dros dro gan staff yr Asiantaeth.

25. Ar 31 Mawrth 2019 roedd 93 aelod ar y Panel Adolygu. Maent yn ystyried y mwyafrif o achosion yn unigol. Caiff apeliadau eu dyrannu'n unol â meysydd arbenigol y gyfraith a ddatganwyd gan bob aelod o'r panel.

26. 26. Mae yna hefyd is-banel, y Panel Adolygu Rheolaethau Arbennig (SCRP) sy'n cynnwys tri aelod arbenigol o FCARP sy'n ystyried apeliadau sy'n ymwneud ag achosion cost uchel penodol ac achosion mwy cymhleth eraill. Mae 18 aelod SCRP o fewn y FCARP.

27. Mae'r ACC wedi lansio ymarfer recriwtio cystadleuol ar gyfer aelodaeth y panel yn dechrau o 1 Gorffennaf 2019. Bydd y rhai a benodir yn gweithredu am gyfnod o bum mlynedd. Ymestynnodd yr ACC yr ymarfer recriwtio i ganiatáu ceisiadau gan Gymrodorion Sefydliad Siartredig y Gweithredwyr Cyfreithiol.

28. Os yw cleient yn anfodlon â phenderfyniad yn dilyn adolygiad ac/neu apêl yna'r unig gam ar ôl yw cyfreitha.

## Cyfreitha

29. Gellir herio trefn gwneud penderfyniadau'r Cyfarwyddwr drwy hawlio adolygiad barnwrol. O werth i'w nodi eleni oedd her i'r rheoliadau'n ymwneud â gwrthod ôl-ddyddio cymorth cyfreithiol sifil. Yn Duncan Lewis Solicitors v Director of Legal Aid Casework & Lord Chancellor ("achos Duncan Lewis") fe heriodd yr Hawlydd, cwmni o gyfreithwyr, benderfyniad gan yr ACC i wrthod talu am waith a wnaed cyn rhoi cyllid ar gyfer cynrychiolaeth gyfreithiol frys, lle nad oedd grym ar y pryd i wneud hynny yn Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol (Gweithdrefn) 2012 mewn perthynas â gwaith o fewn y cwmpas. Cytunodd yr Arglwydd Ganghellor, a oedd hefyd yn ddiffynnydd yn yr achos, i ddiwygio Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol (Gweithdrefn) 2012 er mwyn rhoi disgresiwn i'r Cyfarwyddwr ôl-ddyddio effaith rhai penderfyniadau cymorth cyfreithiol. Ynghyd â'r newidiadau hyn, fe gaewyd y gwasanaeth 'y tu allan i oriau' a oedd yn darparu penderfyniadau brys ar geisiadau am gynrychiolaeth frys ac nid oedd modd ei ddefnyddio ar ôl 19 Chwefror 2019. Daeth y newidiadau i rym ar 20 Chwefror 2019 ac maent yn berthnasol i geisiadau a phenderfyniadau yn cynnwys diwygiadau a waned ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw.

30. Bu cyfreitha hefyd mewn perthynas â chwmpas y Ddeddf LASPO Act gan ei bod yn ymwneud â dioddefwyr masnachu pobl (VoT), ac yn benodol, beth yw "cais … am ganiatâd i ddod i mewn, neu i aros yn, y Deyrnas Unedig" i ddibenion paragraff 32 of Rhan 1 o Atodlen 1 o Ddeddf LASPO . (LL v Lord Chancellor). Derbyniodd yr ACC y gellir ystyried (lle bo hynny'n briodol) bod y broses VoT yn un sy'n cynnwys cais am ganiatâd i aros, ac nid yn unig i gydnabod statws VoT

# Accountability

31. Fel nodwyd yn adroddiad y llynedd, esgorodd achos R (Faulkner) v Director of Legal Aid Casework [2018] EWCA Civ 1656 ar benderfyniad gan y Llys Apêl a oedd yn cadarnhau nad oedd gan y Cyfarwyddwr unrhyw rym i hepgor y taliad statudol lle na wnaed penderfyniad bod gan achos fudd cyhoeddus ehangach sylweddol, a lle nad oedd yr achos hwnnw wedi ei ddewis i'w ariannu fel achos prawf. Mae'r penderfyniad ar hyn o bryd ar apêl i'r Goruchaf Lys sydd, ar adeg ysgrifennu, yn ystyried a ddylid rhoi caniatâd.

32. Ffynhonnell ymholi barhaus fu'r posibilrwydd o gymhwyso'r taliad statudol i ddyfarnu iawndal o dan y Ddeddf Hawliau Dynol (HRA) a wnaed o blaid plant a rhieni mewn achos cyfraith gyhoeddus deuluol, o ganlyniad i fethiannau gan awdurdodau lleol neu gyrff cyhoeddus eraill ddaw i'r golwg o fewn neu ar yr un pryd â'r achos hwnnw. Cafodd y mater hwn ei ddatrys i raddau helaeth yn 2017. Cafwyd dyfarniad arall ar 5 Mehefin 2018 yn achos Northamptonshire County Council & A.W. v Lord Chancellor (via the Legal Aid Agency) [2018] EWHC 1628 (Fam) a oedd yn rhoi sylw i'r amgylchiadau lle mae iawndal a adferwyd, yn unol â'r HRA mewn perthynas â thorri dyletswydd gan Awdurdod Lleol yn dilyn achos gofal (neu achos plant cyfraith gyhoeddus arall), yn ddarostyngedig i'r taliad statudol mewn perthynas â'r costau'r achos hwnnw. Cyhoeddwyd datganiad sefyllfa gan yr ACC wedi ei atodi i'r dyfarniad i'w ddarllen yng. nghyd-destun hawliadau'r HRA lle mae materion cost tebyg yn codi.

33. 33. Mewn perthynas â chymorth cyfreithiol troseddol, cafwyd pedwar achos yn yr Uchel Lys lle ceisiodd cyn gleientau a arianwyd, yn aflwyddiannus, i herio'u Gorchmynion Cyfraniad Cyfalaf (CCOs). Rhoddir CCOs i ddiffinyddion sy'n cael eu dyfarnu'n euog fel eu bod yn cyfrannu tuag at gost eu cynrychiolaeth gyfreithiol yn eu hachos troseddol o gyfalaf ac ecwiti sy'n uwch na'r trothwy o £30,000. Cyflwynwyd pob her ar sail wahanol. Un achos i'w nodi oedd R (Flannigan) v Director of Legal Aid Casework [2018] EWHC 1927 (Admin) a oedd yn ymwneud ag a oedd gan y Cyfarwyddwr hawl i roi CCO sawl blwyddyn wedi i'r achos yn Llys y Goron ddod i ben ac a oedd gan y Cyfarwyddwr hawl i ystyried asedau a oedd wedi eu hatal ar ddechrau'r achos yn Llys y Goron, ond nad oeddynt wedi eu hatal wedi i'r Hawlydd dalu ei orchymyn atafaelu. Penderfynodd yr Uchel Lys nad oedd yr oediad wedi achosi unrhyw ragfarn ac y byddai wedi bod yn rhaid i'r Cyfarwyddwr adolygu achos yr Hawlydd ar ôl i'w orchymyn atal gael ei ad-dalu oherwydd bod hynny'n newid mewn amgylchiadau ariannol a oedd yn effeithio ar atebolrwydd yr Hawlydd i wneud taliad.

# Casgliad

34. Ni fu unrhyw newid i'r modd y mae swyddogaethau'r Cyfarwyddwr yn parhau i fod yn agored i graffu cyhoeddus. Esbonnir isod y mecanweithiau sydd ar waith sy'n caniatáu craffu ar waith yr ACC a phartïon â diddordeb i ddwyn y Cyfarwyddwr i gyfrif.

## Cwestiynau seneddol a cheisiadau rhyddid gwybodaeth

35. Gall Aelodau Seneddol ac Arglwyddi ofyn cwestiynau seneddol am y Cyfarwyddwr mewn perthynas ag achosion neu unigolion. Yn yr un modd, gall y cyhoedd hefyd gyflwyno ceisiadau am wybodaeth a gedwir gan yr ACC o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

36. Yn 2018-19 derbyniodd yr ACC 14 cais o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac 11 cwestiwn seneddol mewn perthynas â Chyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol yn benodol. Roedd y mwyafrif ohonynt yn ymwneud â ECF ac ariannu achosion unigol.

37. Mae gwybodaeth am gleient cymorth cyfreithiol unigol yn debygol o fod yn ddata personol ac ni ellir ond ei ryddhau lle mae'r achos yn cwrdd â'r meini prawf a nodir yn y Ddeddf Diogelu Data 1998.

## Complaints

38. Mae'r ACC yn ymchwilio'n drylwyr i bob cwyn mae'n ei derbyn gan ddefnyddio trefn gwyno dwy haen. Mae'r gŵyn gychwynnol yn rhoi cyfle i'r ACC adolygu'r ffordd yr ymdriniwyd â'r mater ar lefel leol a chywiro'r sefyllfa os yw'n bosibl. Os nad yw'r hawlydd yn fodlon â'r ymateb cychwynnol, gall ddwysáu ei gŵyn a gwneud cais am adolygiad pellach. Os yw'r hawlydd yn parhau i fod yn anfodlon â'r ymateb mae ganddo'r hawl i gyfeirio'r gŵyn at yr Ombwdsmon Gwasanaethau Seneddol ac Iechyd drwy eu AS lleol. .

39. Nid yw'r ACC yn cofnodi cwynion sy'n ymwneud â chylch gwaith y Cyfarwyddwr ar wahân. Fodd bynnag, mae cyfran arwyddocaol o'r holl gwynion mae'r ACC yn eu derbyn yn ymwneud ag achosion unigol a phenderfyniadau gwaith achos.

# Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

40. Mae'r ACC yn ymdrin â cheisiadau am gymorth cyfreithiol ar draws amrywiol agweddau o'r gyfraith. Mae'r ACC yn cyhoeddi ystadegau cenedlaethol ar nifer y ceisiadau ym mwletin Ystadegau Cymorth Cyfreithiol. Caiff hwn ei gyhoeddi bob chwarter, a chafodd ystadegau am y cyfnod hyd at ddiwedd Mawrth 2019 eu cyhoeddi ar-lein ar 27 Mehefin 2019.[2]

# Conclusion

41. Mae'r ACC yn ddarostyngedig i ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus a dan adran 149 (1) y Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

42. Yn ystod 2018-19 parhaodd yr ACC i wella gwybodaeth ac ymwybyddiaeth staff am faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth. Fel isafswm mae'n angenrheidiol i staff gwblhau cyrsiau dysgu'r Gwasanaeth Sifil ar Hanfodion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, Rhagfarn Ddiarwybod a Hyder Anabledd..

43. Mae'r ACC yn gofyn i geiswyr cymorth cyfreithiol ddarparu gwybodaeth cydraddoldeb personol. Mae'r wybodaeth hon yn galluogi'r ACC i ddeall anghenion ceiswyr cymorth cyfreithiol posib yn well ac i lunio ystadegau am eu hamrywiaeth.

44. Mae'r Cyfarwyddwr wedi adolygu'r wybodaeth cyfle cyfartal a ddarparwyd gan y rhai a dderbyniodd gymorth cyfreithiol yn ystod 2017-18 er mwyn monitor i ba raddau mae'r ACC yn parhau i ddarparu ar gyfer poblogaeth amrywiol Cymru a Lloegr. Fe gyhoeddodd yr ACC ystadegau'n ymwneud ag amrywiaeth cleientiaid cymorth cyfreithiol am y cyfnod 2018-19 fel rhan o fwletin Ystadegau Cymorth Cyfreithiol ar 27 Mehefin 2019, a bydd y Cyfarwyddwr yn parhau i adolygu'r wybodaeth hon yn ystod y flwyddyn a ddaw

2 See https://www.gov.uk/government/collections/legal-aid-statistics

45. Mae rôl bwysig Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol yn sylfaenol i'r system cymorth cyfreithiol. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r ACC wedi parhau i fod yn hynod ymatebol i newidiadau deddfwriaethol a rheoliadol wrth ddarparu'r holl gefnogaeth sydd ei hangen ar y Cyfarwyddwr i gyflawni ei ddyletswyddau.

46. Mae ein hymrwymiad i wella prosesau digidol yn parhau i fod yn faes pwysig yng ngwaith yr ACC. Rydym yn parhau i gydweithio gyda darparwyr yn y maes hwn i sicrhau bod y drefn ddirprwyedig o wneud penderfyniadau yn y gyfarwyddiaeth rheoli achos yn cael ei rheoli mor effeithlon â phosibl.

47. Rhaid i'r Cyfarwyddwr fod yn barod bob amser i weithio drwy a chwrdd â heriau wrth arfer ei swyddogaethau

48. Er enghraifft, mae achos Duncan Lewis yn enghraifft o her a arweiniodd at newid yn y rheoliadau. Pan fydd newid wedi ei wneud ein hymagwedd yw sicrhau bod dulliau newydd o ariannu yn ddealladwy i bob ochr. Mae hyn yn gymorth i'r holl bartïon gydweithio mor effeithiol â phosibl wrth symud ymlaen. Yn yr achos hwn, mae'r newid yn golygu bod trefniadau yn eu lle bellach i alluogi taliadau am waith a gwblhawyd cyn gwneud y penderfyniad i roi cyllid ar gyfer cynrychiolaeth gyfreithiol frys.

49. Mae'r Asiantaeth Gymorth Cyfreithiol wedi ymrwymo i feithrin gallu a sgiliau ei weithlu. Fel y dengys yr adroddiad hwn, pwysodd y Cyfarwyddwr yn drwm ar y gallu hwn wrth gwrdd â gofynion y rôl yn 2018-19. Rwy'n hyderus y deil y gallu hwn i gryfhau yn ystod y blynyddoedd a ddaw.

50. Anfonwyd copi o'r adroddiad hwn at yr Arglwydd Ganghellor yn unol ag adran 7(3) y Ddeddf LASPO. Bydd yr Arglwydd Ganghellor yn cyflwyno copi o'r adroddiad i'r Senedd.

CCS0619468214

978-1-5286-1441-2